| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD | **18 RHAGFYR 2023** |
| TEITL | **GWYDDONIAETH HINSAWDD A MODELU ECONOMAIDD** |
| PWRPAS | **Ymchwilio i erthyglau diweddar yn awgrymu nad yw cronfeydd pensiwn yn dilyn gwyddoniaeth hinsawdd wrth osod eu strategaeth buddsoddi** |
| ARGYMHELLIAD | **Nodi cynnwys yr adroddiad ac ystyried unrhyw risgiau cysylltiedig** |
| AWDUR | **Delyth Wyn Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae nifer o erthyglau diweddar wedi'u cyhoeddi sy'n nodi nad yw'r cyngor y mae cronfeydd pensiwn yn ei dderbyn yn dilyn gwyddoniaeth hinsawdd ac felly'n peryglu'r buddsoddiadau. Mae hyn yn seiliedig yn bennaf ar yr adroddiad gan Carbon Tracker, sydd i'w weld yn adran 2

Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i sut mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi cymryd yr hinsawdd i ystyriaeth wrth osod ei strategaeth ariannu a buddsoddi, a sut y bydd hyn yn esblygu yn y dyfodol.

## 2. ERTHYGLAU

Gellir dod o hyd i'r erthyglau diweddar trwy ddilyn y dolenni hyn:

https://carbontracker.org/reports/loading-the-dice-against-pensions/

https://www.chathamhouse.org/2023/07/climate-change-threatens-cause-next-economic-mega-shock

Carbon Tracker: Financial firms' 'flawed' climate models putting millions of pensions at risk (professionalpensions.com)

Pension funds 'at risk' over climate change financial impact advice | Local Government Chronicle (LGC) (lgcplus.com)

Dywed yr ymchwil gan Carbon Tracker, cwmni dielw sy'n archwilio risg hinsawdd, fod papurau economaidd yn anwybyddu 'pwyntiau tyngedfennol' hinsawdd sy'n golygu bod newidiadau yn yr effaith economaidd o gynhesu byd-eang yn "*llawer mwy tebygol o fod yn amharhaol ac yn sydyn, yn hytrach nag yn barhaus ac yn gymharol raddol*".

## 3. CRONFA BENSIWN GWYNEDD

Rydym wedi codi'r pryderon gyda'n hymgynghorwyr Hymans Robertson ac maent wedi datgan bod *'yr adroddiadau'n codi pryderon dilys, sef yr un*

*pryderon ag yr ydym wedi'u trafod a'u hystyried wrth ddatblygu ein hymagwedd at fodelu hinsawdd*.'

Mae'r modelu diweddaraf y mae'r Gronfa wedi'i gomisiynu yn dilyn prisiad 2022. Roedd model 2022 yn archwilio gwytnwch ein strategaeth ariannu a buddsoddi y gellir ei brofi o dan wahanol lwybrau hinsawdd, lle pwysleisir yr ansicrwydd dros wahanol gyfnodau.

Mae'r wybodaeth risg hinsawdd o'r adroddiad hwn i'w gweld yn Atodiad 1.

Perfformiwyd y modelu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd gan ddefnyddio dadansoddiad senario. Mae dadansoddi senarios yn un o'r arfau y mae cronfeydd pensiwn wedi gallu eu defnyddio i gynnal trafodaethau ystyrlon ar risg hinsawdd. Er nad yw'r modelu'n ystyried rhai o'r senarios mwy eithafol, mae'r modelau'n dal i amlygu'r potensial ar gyfer risgiau sylweddol. Roedd y model yn dangos bod canlyniadau'r Gronfa yn galonogol - nad yw'n ymddangos bod y model craidd yn tanamcangyfrif risg hinsawdd yn sylweddol.

## 4. DATBLYGIADAU'R DYFODOL

Mae Hymans Robertson a Chronfa Bensiwn Gwynedd yn cydnabod bod angen i'r agwedd barhau i esblygu wrth i ddealltwriaeth o risg hinsawdd ddatblygu. Felly, yn ystod 2023, mae Hymans Robertson wedi bod yn datblygu iteriad newydd o'u hymagwedd at fodelu senarios hinsawdd. Mae'r dull yn defnyddio senarios naratif manylach, wedi'u hadeiladu drwy ddeall y sbardunau sylfaenol a'u dibyniaethau. Mae'r senarios naratif manwl hyn yn caniatáu ar gyfer ystyried canlyniadau hinsawdd mwy eithafol.

Dylid ategu unrhyw waith modelu â dadansoddiad arall er mwyn caniatáu trafodaeth fanylach am yr hyn a all ddigwydd. Bydd mesur amlygiad i beryglon hinsawdd a datblygu cynllun gweithredu pontio hinsawdd yn gamau nesaf allweddol i fynd i'r afael â'r risgiau newid yn yr hinsawdd a wynebir gan y Gronfa, yn arbennig, wrth i ni symud tuag at weithredu gofynion y TCFD.

## 5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Bwrdd Pensiwn nodi cynnwys yr adroddiad hwn ac ystyried unrhyw risgiau cysylltiedig.